

Swyddog Cyflogadwyedd

Cyflog: £25,000 - £27,000

Lleoliad: Gorllewin Cymru

Contract: Llawn-amser, parhaol

Oriau Gwaith: Dydd Llun I Ddydd Gwener 09:00yb i 16:30yp

Amdanom Ni

Yn Itec, rydym yn rhoi ein gweithwyr wrth wraidd popeth a wnawn. Fel sefydliad sy'n eiddo i'r gweithwyr, mae pob aelod o'r tîm yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio dyfodol ein busnes. Rydym yn meithrin diwylliant lle mae pob llais yn cael ei glywed, a lle mae pob cyfraniad yn cael ei werthfawrogi. Rydym yn ymfalchïo mewn grymuso unigolion a busnesau i ffynnu. Ymunwch â ni a dewch yn rhan o gwmni sy'n ymroddedig i'ch twf, lles a llwyddiant.

Ynglŷn â'r rôl

Bydd y Swyddog Cyflogadwyedd yn darparu cefnogaeth weithredol i sicrhau bod y Rhaglen Gwarant Swyddi yn cael ei chyflwyno'n effeithiol. Mae'r rôl yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chyfranogwyr, gweinyddu a chydlynu gweithgareddau'r rhaglen gan gynnwys atgyfeiriadau, ymsefydlu, paru swyddi a chefnogaeth barhaus i gyfranogwyr.

Eich Effaith

- Cyfrifol am gefnogi'r broses atgyfeirio a chydlynu gweithgareddau ymsefydlu cyfranogwyr.
- Cyfrifol am gynnal cyswllt rheolaidd â chyfranogwyr i annog ymgysylltiad a phresenoldeb.
- Cyfrifol am gynnal cofnodion cyfranogwyr cywir a dogfennaeth y rhaglen.
- Cyfrifol am gefnogi casglu tystiolaeth ar gyfer canlyniadau swyddi a chyflogaeth gynaliadwy.
- Cyfrifol am gefnogi amserlennu sesiynau hyfforddi, gweithdai a chyfweiliadau â chyflogwyr.
- Cyfrifol am gysylltu â thimau mewnol i sicrhau dilyniant cyfranogwyr ar draws camau'r rhaglen.
- Cyfrifol am nodi cyfleoedd cyflogaeth addas i gyfranogwyr.
- Cyfrifol am gefnogi gyda chynnal cyfathrebu â chyfranogwyr ar ôl iddynt ddechrau cyflogaeth.

Beth ydym ni'n chwilio amdano?

Hanfodol

- Profiad o fewn Recriwtio
- Profiad o weithio gydag oedolion di-waith
- Profiad o weithio mewn amgylchedd masnachol sy'n cael ei yrru gan dargedau
- Rheoli perthnasoedd â chleientiaid Sgiliau rhwydweithio
- Profiad o alwadau oer Ysgrifennu cyflwyniadau ac adroddiadau
- Trwydded yrru lawn gyda defnydd o'ch cerbyd eich hun

Beth sydd ynddo i chi?

Yn Itec, mae gan ein gweithwyr fynediad at nifer o fuddion gwyb, gan gynnwys 30 diwrnod o wyliau blyneddol (yn codi gyda hyd gwasanaeth), cynllun gofal iechyd, 35 awr o wythnos waith, gostyngiadau ar gyfer aelodaeth manwerthu a champfa, cynllun rhannu elw, yswiriant bywyd, gwobrau gweithiwr y mis, cydnabyddiaeth hyd gwasanaeth, a llawer mwy.

Mae ltec yn gweithredu fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir ac yn sicrhau cyfleoedd cyfartal gan gynnwys rhyw, ethnigrwydd, anabledd, neu nodweddion gwarchodedig eraill. Gwnewch gais yn gynnar, gan y gallwn gau'r swydd wag unwaith y bydd gennym ddigon o ymgeiswyr addas. Rydym yn annog ymgeiswyr i ddatgelu unrhyw anghenion am addasiadau rhesymol yn ystod y broses recriwtio neu yn eu rôl i helpu i greu gweithle cynhwysol.

Os na fyddwch yn clywed gennym 2 wythnos ar ôl gwneud cais, cymerwch yn ganiataol nad oedd eich cais yn llwyddiannus ar yr achlysur hwn.

Os ydych chi'n angerddol am ddatblygu eraill a gwneud gwahaniaeth, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi!